# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 240(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Cofio - Tynnywd yn ôl

(0 munud)

### 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Wythnos Gwrthfwlio: Iechyd meddwl a llesiant meddyliol dysgwyr

(45 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Diogelwch adeiladau

(45 munud)

## 7 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog Dros Dro

(5 munud)

**NNDM8716** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8715 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 12 Tachwedd 2024.

## 8 Dadl: Cofio

(60 munud)

**NNDM8715** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd parhaus cyfnod y Cofio i deuluoedd a chymunedau yng Nghymru.

2. Yn talu teyrnged i wasanaeth ac aberth unigolion o bob rhan o Gymru sydd yn gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog.

3. Yn cydnabod gwaith diflino sefydliadau, unigolion a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cymuned a chyn-aelodau'r lluoedd arfog ledled Cymru.

Cyd-gyflwynwyr

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r angen i ymdrechu i gael datrysiad heddychlon i bob gwrthdaro a rhoi terfyn ar ryfel.

Yn cofio pawb sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd a gwrthdaro, gan gynnwys anafusion sifil.

## 9 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2023-24

(60 munud)

**NDM8714** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2023-24.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024